

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyrol 5 Rhif 6

Yn rhad ac am ddim

Medi 2024



Parti Haf a Phenblwydd James

Doedd hi ddim yn teimlo fel haf ar y pryd ond os dach chi'n meddwl am y peth dyna'r union amser dylech chi gael parti. Mae'n rhaid gwneud rhywbeth i godi'ch calon. Felly ar y 24ain o Orffennaf yn Neuadd Eglwys Sant Pedr yn Newton, Abertawe roedden ni'n barod i ddathlu. Roedden ni wedi bod yn lwcus i gael Ken a Karen Jones, Y KayJays i arwain ni yn y canu ac roedd Liz a chriw'r gegin wedi paratoi gwledd i ni, quiche reit fawr a salad ac Eton Mess i ddilyn. O ystyried bod yr ystafell yn llawn a'r byrddau yn agos at ei gilydd roedd y bwyd yn ein cyrraedd ni yn gyflym iawn.

Unwaith roedd popeth wedi ei glirio roedden ni'n barod i ganu. Fel arfer wrth gwrs dyn ni'n cadw at y Gymraeg ond roedd y parti yma ar agor i bawb, felly roedd cymysgedd o ganeuon

Saesneg a Chymraeg. Calon Lân, Ar Lan y Môr ac Ar Hyd y Nos yn Gymraeg, Summer Holiday, You are My Sunshine ac, i ychwanegu tipyn bach o realaeth - Blowing in the Wind!

Cyn y tro nesaf byddai rhaid i mi edrych yn fwy manwl ar y caneuon, roedd 'Summer Holiday' yn iawn ond er bod tôn 'You are my Sunshine' y 'reit jolly' roedd o am rywun oedd wedi colli ei gariad. Ta waeth roedd pawb wedi cael hwyl a chawson ni gyfle arall i sefyll a chanu Hen Wlad fy Nhadau.

Er mwyn dyfodol yr iaith mae'n bwysig iddi gael ei chlywed mor aml â phosib ac yn enwedig mewn ffordd gymdeithasol. Dyma beth sydd yn digwydd yn Neuadd Newton, mae'r rhai sydd wedi bod yn ymarfer Tai Chi erbyn hyn yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

gyfarwydd â chlywed yr iaith ac roedden nhw'n hapus i rannu'r dathliad efo ni.

Yn ein grŵp ni yng Nghaffi Cwm Ivy yr wythnos cynt roedden ni'n dathlu pen-blwydd James, y gyfrinach yw ei fod yn 70 oed. Roedd hi'n ddiwrnod braf a llawer o ymwelwyr o gwmpas. Gyda chefnogaeth Ken a Karen unwaith eto roedden ni'n cael hwyl yn y canu a'r ymwelwyr yn cael mwynhad mawr, rhai eisïau copiâu o'r daflen efo'r geiriau. Ces i'r cwestiwn "How often are you here?" a finnau'n ateb "Oh, only on James' birthday!"



Roedden ni wedi mwynhau yn fawr a hefyd yr ymwelwyr ac mae hynny'n digwydd yn aml, felly mae yna wers ondoes? Does dim rhaid i ni gadw ein Cymraeg yn dawel. Efallai wir byddai rhai o'r ymwelwyr yn dweud wrth eu ffrindiau bod nhw wedi clywed Cymraeg, wedi siarad efo ni a bod y profiad wedi ychwanegu at y mwynhad roedden nhw wedi cael ar eu gwyliau.

Felly peidiwch â bod yn swil, siaradwch yr iaith ar bob cyfle, gyda balchder!

Teithiau Cerdded

gan Rob Evans

Mae'r teithiau cerdded yn dal yn mynd ymlaen ac yn help mawr i ddysgwyr ein hardal, cyfle gwych i ddysgwyr dod i adnabod ei gilydd a chael sgwrs. Ar ben hynny mae'r teithiau yn mynd â phobl i lefydd nad ydyn nhw wedi bod o'r blaen a chael tipyn o hanes hefyd. A dyma'r ffordd gorau i godi eich hyder yn yr iaith Gymraeg.

Beth am y teithiau felly?

Gravesend

Ar y 6ed o fis Gorffennaf dechreuon ni o Southgate a cherdded ar hyd llwybr yr arfordir tuag at Fae Pwll Du, Martin oedd yn arwain. Doedden ni ddim yn mynd cyn belled â Phwll Du ond hyd at Gravesend. Roedd y tywydd yn braf ond tipyn bach yn wyntog a chyn bo hir roedden ni wedi cyrraedd y pwynt uchaf ac yna, trwy adwy yn y gwrych dyn ni'n gweld cylch o gerrig i

lawr yn y gwaelod. Dyna ble roedden ni'n mynd. I lawr y grisïau cerrig a throi i'r dde i ddilyn llwybr trwy'r rhedyn a dyma ni wrth ochr y cylch. Peth oedd pwrpas y cerrig? Dyma'r esboniad oddi wrth Martin.

Ym 1760 roedden ni mewn rhyfel efo Ffrainc, ac nid am y tro cyntaf o bell ffordd. Roedd angen



llawer o filwyr i wasanaethu ond doedd dim digon yn gwirfoddoli ond roedd ffordd arall o gael pobl i ymuno a'r fyddin. Y Press Gang! Roedd llong o'r enw Caesar yn gwneud ei ffordd o gwmpas arfordir de Cymru ac yn cipio unrhyw ddyn oedd yn addas i'r pwrpas. Roedden nhw'n mynd â nhw i'r llong ac yn cadw nhw yn y ceudod, mewn cadwyni.

Yn anffodus roedd y llong wedi cael ei daro gan storm fawr ac aeth y llong ar y creigiau. Llwyddodd y criw i ddianc ond doedd neb yn poeni am y dynion. Yn y bore roedd y bobl leol a oedd wastad yn cadw llygaid allan am longddrylliadau wedi mynd i lawr i weld beth oedd y cargo. Gwelon nhw'r carcharorion, i gyd wedi boddi, eu rhyddhau nhw a mynd â nhw i'r lan. A dyna le maen nhw hyd heddiw yn ein hatgoffa ni o greulondeb rhyfeloedd ac annhegwch bywyd.

Diolch yn fawr iawn i Martin am stori a thaith ddiddorol.

Parc le Breos

Ar y 13eg Gorffennaf roedden ni'n cerdded yn ardal Parc le Breos ger Parc Mill. Roedd y diwrnod yn braf iawn a'r bwriad oedd gweld yr ogof a'r siambr claddu ond yn anffodus erbyn i ni



gyrraedd canol Parc le Breos roedd llawer wedi dechrau blino a phenderfynon ni ddod â'r daith i ben yna a gwneud ein ffordd yn ôl at y ceir. Mi fydden ni'n gwneud y daith eto ond dechrau o ochr Parc Mill.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ond roedd pawb wedi cael cyfle da i sgwrsio a doedd y diwrnod ddim wedi dod i ben eto achos anelon ni at Faes Awyr Rhyngwladol Abertawe (wel mae'r awyrennau weithiau yn mynd mor bell â Lloegr). Mae caffi da iawn yna ac roedd bwrdd digon mawr i ni. O'n cwmpas roedd awyrennau yn codi i'r awyr a phobl yn disgyn allan ohonyn nhw, efo parashiwt wrth gwrs. Ond yn fwy pwysig roedd y diwrnod wedi rhoi cyfle i ni drafod cael teithiau cerdded yng Nghwm Tawe a Chwm Nedd. Mi fydd ehangu ein hardal yn golygu bydden ni'n gallu denu mwy o ddysgwyr o wahanol ardaloedd.

Parc Singleton

Mae Parc Singleton yn agos iawn i le dw i'n byw ac, wedi croesi'r ffordd brysur yn ddiogel, dyma ni ar gyrion y parc, dyma ddyn yn dod atom ni "A'i chi yw'r grŵp cerdded Cymraeg?" gofynnodd o, wel yn sicr ni oedd y grŵp ond pwy oedd o?

Kevin oedd ac roedd o'n gwneud gwaith i'r Brifysgol dros yr Haf ac wedi bod yn dysgu Cymraeg am tua phedair blynedd os dw i'n cofio'n iawn. Roedd ei Gymraeg yn arbennig o dda ond doedd o ddim yn sylweddoli hynny. Mae lawer o ddysgwyr yn yr un sefyllfa - maen nhw angen rhywbeth i helpu nhw sylweddoli bod nhw wir ar y ffordd i fod yn gyfforddus yn siarad yr iaith.

Byddech chi wedi gweld fy mod i wedi osgoi dweud y gair 'rhugl' achos mae'n anodd cytuno ar beth mae hynny'n golygu. Beth sydd yn bwysig yw bod chi'n gyfforddus yn siarad yr iaith.

Roedd yr ardd flodau yn hyfryd ac roedd yn braf crwydro ond doedd dim lle i gael paned felly roedd angen dipyn bach o grafu pennau, beth am y Taliesin? Mynd trwy adwy ac i mewn i gampws y brifysgol ond na, roedd y Taliesyn ar gau. Ar ôl tipyn o chwilio dyn ni'n dod ar draws lle efo peiriannau a digon o le i eistedd i lawr - perffaith! Crwydro'n ôl trwy'r ardd gyfrinachol a oedd yn gymaint o



gyfrinach doedd y garddwyr ddim wedi ei ddarganfod am sbel go hir.

Yn ôl wedyn a phawb wedi mwynhau.



Teithiau Cerdded Y Wennol

Beth am ymuno â ni ar daith gerdded yn Abertawe ar ddydd Sadwrn!

Cyfle da i gyfarfod dysgwyr eraill ac ymarfer eich Cymraeg ar yr un pryd

Mis Medi 2024

Med 17fed - Pwll Du #1 - cyfarfod ym maes parcio Southgate SA3 2DH

Medi 14eg - Cefn Bryn - Cyfarfod yn y maes parcio ger eglwys Penmaen SA3 2HQ

Medi 21ain - Taith efo Cymdeithas Edward Llwyd yn ardal Llanmadoc allech chi wneud yr holl daith (6 milltir) neu un llai (3.5 milltir) Cyfarfod yn y maes parcio (troi i'r dde wrth yr eglwys) SA3 1DJ

Medi 28ain - Kilvey Hill - cyfarfod yn y maes parcio ar waelod Pentrechwyth Road SA1 7AA

Mae pob taith yn dechrau am 10.30

Dim cŵn os gwelwch yn dda. Gwisgwch ddillad a 'sgidiau addas

Dewch i gyfarfod dysgwyr a Chymry Cymraeg er mwyn mwynhau'r awyr agored ac iaith y Nefoedd.

Dewch i gael hwyl!

Beth am greu eich grŵp cerdded eich hunain?

Mae'n ffordd dda i ymarfer eich Cymraeg a chreu fffindiau newydd. Siaradwch efo pobl yn eich dosbarth ac - ewch am dro!

Mae mor hawdd â hynny!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Lauren Marbrow

Fy enw i yw Lauren. Dw i'n byw ger Abercych, rhwng Castell Newydd Emlyn ac Aberteifi. Mae un ferch ac un mab gyda fi. Mae fy merch yn saith oed a fy mab yn pedair oed. Hefyd, mae un ci gyda fi, ei enw yw Kenny ac mae'n Cocker Spaniel.

Dw i'n gweithio fel Ffisiotherapydd - roeddwn i'n arfer gweithio mewn ysbyty ond dw i'n gweithio gartref nawr mewn clinig preifat.

Dw i'n mwynhau mynd â'r plant i'r traeth a mynd i redeg gyda fy nghi.

Ar gyfer fy mhen-blwydd eleni, cerddais "The Golden Road" ar draws brynau'r Preseli - roedd yn hardd ac roedd y tywydd yn garedig - oer ond heulog. Diwrnod perffaith!

Carol Wright

Carol dw i. Ces i fy ngeni a fy magu yn yr Alban. Siaradais i Saesneg, a dysgais i Ffrangeg ac Almaeneg yn yr ysgol ac yn y brifysgol. Dw i byth wedi siarad Gaeleg, achos doedd pobl yn fy ardal ddim yn siarad Gaeleg.

Dw i'n byw yn Lloegr ers llawer o flynyddoedd. Pam dw i'n dysgu Cymraeg? Wel, deg mlynedd yn ôl es i i Ben Llŷn yng Ngogledd Cymru am y tro cyntaf. Clywais i gymaint o bobl yn siarad Cymraeg heb i fi ddeall un gair. Ro'n i'n meddwl y dylwn i ddysgu'r iaith, ond doedd gen i ddim amser tan y cyfnod clo. Dechreuais i gyda Choleg Gwent, ac ym mis Medi bydda i'n parhau gydag Uwch 1.

Dw i'n dwlu ar Gymraeg a dw i'n edrych ymlaen at fy nhaith nesa i Ben Llŷn.

Have you got a story to tell?

Why not have a go!

No experience necessary!

Margo Aderyn



Shw mae. Margo dw i. Dw i'n byw yn y Canolbarth, ym Mhowys. Weithiau dw i'n hoffi ymweld â lleoedd diddorol neu hardd. Roedd y tywydd yn fendigedig y penwythnos diwethaf felly es i i Sgwd Henrhyd - achos dw i erioed wedi bod yna.

Mae'r llwybr yn brydferth ond ddim yn hawdd iawn i bawb, a dweud y gwir roedd e dipyn bach yn heriol i fi - nodyn i fi fy hun: paid ag anghofio dy ffyn gerdded ar gyfer y daith cerdded nesa!

Roedd sawl dyn yn nofio pan gyrhaeddais i'r rhaeadr. Roedd y dŵr yn oer iawn! Ond roedd y lle yn anhygoel.

Dôn i ddim yn gwybod bod y llwybr yn arwain y tu ôl i'r rhaeadr. O'ch chi'n gwybod hynny?

Cymerais lun i ddangos y lle i chi.

Nigel Mann

Mi ges i fy ngeni a'm magu yn Llanelli. Rydw i wedi byw yn Ninas Wrecsam ers blynnyddoedd nawr. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers dwy flynedd. Mi fydda i'n dechrau ar y Cwrs Canolradd ym mis Medi, efo fy ngwraig Geraldine.

Dw i wedi ymddeol, ond roeddwn i'n athro Cemeg am dri deg pum mlynedd. Dw i'n mwynhau'r rhyddid o ymddeol ond dw i'n colli

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

dysgu ychydig bach - ffrindiau gwaith, myfyrwyr a ergydion a fflachiadau yn y Lab!

Hefyd, roeddwn i'n Swyddog yn y Fyddin wrth Gefn am dri deg saith mlynedd, hyd yn oed fwy o ergydian a fflachiau! Yn y fyddin, dw i wedi gweld

llawer o bethau bendigedig ym myd natur; Y Goleuadau Gogleddol, eirth gwyllt, lincs, crwbanod y môr, dolffiniaid, hyd yn oed mongws yn dwyn siocled! Hefyd, gwasanaethais yn Bosnia (1996) ac Iraq (2003-04). Yno, roeddwn i'n dysgu beth syn bwysig yn fy mywyd.

Cofiwch ymweld ag Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru ym mis Hydref





Y 38ain Adran (Gymreig) yn Llandudno

gydag Adrian Hughes, Amgueddfa Homefront

Brwydr 's-Hertogenbosch, Hydref 1944

Gyda Cyrnol Nick Lock, OBE

Straeon Gwasanaeth: Y Medalau tu ol i'r Dynion

gyda Richard Ward

Llawdriniaeth yn ystod y Rhyfeloedd Chwyldroadol a Napoleonaid (1793-1815)

gyda Mike Crumplin

Trsorau'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig
Casgliadac Archif yr Amgueddfa

Arddangosfeydd Napoleon a Arddangosiadau gan y 23ain ar Droed
y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

Hydref 12 | 0930-1600
Yn Baracs Hightown Wrecsam

Nifer cyfyngedig o docynnau sydd ar gael

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig



Sganiwch am docynnau neu ewch
i <https://www.rwfmuseum.org.uk/events/rwf-fest-2024-2024-10-12>

How to start a Walking Group

First have a word with the other members of your class. You will need to decide how often you will walk - once a week would be ideal. List 4 or 5 local walks, nothing too strenuous - the purpose is to have Welsh conversations. Issue a programme and put it on a relevant social media site. Complete your first walk and write a little story about it on social media and invite others to come along. After a month of doing this you will be well on the way. Remember to end your walk in a cafe and make sure you continue to speak Welsh there. Try it and see!

Mis Hanes Bro Ogwr

Mis Medi 2024

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr a Thabernacl Porthcawl

Bydd Cymdeithas Hanes Bro Ogwr yn cymryd rhan mewn Mis Hanes Bro Ogwr, mis Medi 2024. Cynhaliwyd sgysiau am hanes a diwylliant Cymreig i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, yr ail nos Lun pob mis, 7-30 ar Zoom ac weithiau yn y Tair Pedol, Cefn Cribwr. Mwy o fanylion ar ein Tudalen Facebook, www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr.

9 Medi 7-30 yn y Tair Pedol, Cefn Cribwr, ac ar Zoom

Rob Evans: Gerallt Gymro

'Dw i'n gofyn weithiau' meddai Rob, 'beth dach chi'n gwybod am Gerallt Gymro, Gerald of Wales, a chael yr ateb "Rhywun oedd yn chwarae Rygbi i Gymru?" Wel, na! Fo oedd y dyn a wnaeth ysgrifennu'r llyfr cyntaf am grwydro trwy Gymru, llyfr sydd yn dal ar gael bron fil o flynyddoedd ar ôl ei ysgrifennu. Dewch i ddysgu mwy.

21 Medi 10-00 tan 4-00 Arddangosfa Capel Tabernacl, Porthcawl,

Drysau Agored Cadw,

Arddangosfa ffotograffig, 'Porthcawl yn y 1930au', teithiau o gwmpas y capel 'art deco' cofrestredig, helpa drysor, gemau a gwobrau a lluniaeth aruthrol!

28 Medi 10-00 tan 4-00 Arddangosfa Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Neuadd Tabernacl, Elder Lane, Pen-y-bont ar Ogwr gyda Siop Llyfrau Cymreig *Cant a Mil*.


Hanes Owain Glyndŵr a'i Wrthryfel - y gwarchae ar Gastell Coety yn enwedig ei ymosodiadau ar Forgannwg. Gyda chyfraniadau eraill am hanes Cymru yn lleol, a sgysiau byr fesul awr trwy'r dydd. Bydd lluniaeth ar gael hefyd.

Bydd cyfarfodydd arbennig trwy fis Medi ar gyfer Mis Hanes Bro Ogwr, gan gynnwys un gan Chris Jones-Jenkins, Ddydd Llun 30 Medi, yn y Tair Pedol efo Bridgend Local History Society: **Working from Home - An Introduction to Reconstruction Drawings in the Local Area**. Bydd cyfle i ymweld â'r Hen Focs Signal, Amgueddfa Porthcawl, St John's House Pen-y-bont ar Ogwr, Garw Valley Heritage Society a Rheilffordd Cwm Garw, yr Ogmores Valley Local History and Heritage Society a'u Canolfan diddorol yn Nant-y-moel, Llynfi Valley Historical Society, a cymaint mwy. Chwiliwch am fwy o wybodaeth ar y wefan gan chwilio am Fis Hanes Bro Ogwr, neu Ogwr History Month.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Gwylwr Closet Opera Sebon

gan Liz Kelly



Pan ddechreuais ddysgu Cymraeg, dros ddwy flynedd yn ôl, doeddwn i ddim yn gwybod am sianel S4C. Iawn, roeddwn i wedi clywed am Bobol y Cwm ond doeddwn i ddim wedi meddwl am ei wyllo. Ond, ar ôl dysgu ar lefel mynediad gyda Dysgu Cymraeg, nes i glywed mwy am S4C a pham bydd hi'n syniad da i wyllo hi weithiau!

Roedd yn anodd yn y dechrau i ddilyn llinellau'r stori a dw i ddim yn deall hanes y cymeriadau i gyd eto ond, yn raddol, dechreuais ddeall y perthynasai rhwng y prif gymeriadau. Pobol y Cwm yw'r opera sebon hiraf y BBC - ym mis Hydref bydd pen-blwydd hanner cant y rhaglen!

Clywais am 'Clic' - yr ap i wyllo S4C ar y we - mae Clic yn wych. Mae'n cynnig mwy o ddewis wrth ddefnyddio isdeitlau Cymraeg neu Saesneg. Ar hyn o bryd dw i'n defnyddio Saesneg ond dw i'n gallu defnyddio Cymraeg - i esbonio geiriau neu ymadroddion - yn enwedig gyda'r botwm saib neu 'pause'.

Ceisiais wyllo Rownd a Rownd tipyn ond doeddwn i ddim yn gallu deall yr acen o gwbl! O'n i'n dysgu gyda Dysgu Cymraeg y De, nid y Gogledd, a phenderfynais i ganolbwyntio ar Bobol y Cwm, a rhaglenni eraill. Ceisiais eto, gyda Rownd a Rownd, sawl mis wedyn, ac roedd yn haws i ddeall na cynt ond eto yn anoddach na Phobol y Cwm. Mae Rownd a Rownd wedi rhedeg ers 1995, yn ôl Wikipedia.

Mae nifer o bobl yn dweud eu bod nhw ddim yn hoffi operâu sebon ond, i fi, mae'n ddefnyddiol iawn i gael syniad neu deimlad o sut mae pobl yn siarad eu Cymraeg llai ffurfiol. Sylweddolais i ddim bod rhai o'r cymeriadau'n defnyddio ymadroddion Saesneg yn aml.

Mae straeon Pobol y Cwm a Rownd a Rownd fel arfer yn eithaf syml, dim yn rhy hir ond mae rhaid cael rhai straeon sy'n parhau dros fisoedd (efallai dros flynyddoedd



hefyd). Mae tair pennod yr wythnos o Bobl y Cwm a dwy Rownd a Rownd ond does dim Rownd a Rownd dros wyliau'r haf Maen nhw'n cymryd egwyl, fel gwyliau ysgol neu brifysgol. A hefyd mae popeth yn stopio yn ystod yr Eisteddfod, wrth gwrs!

Dw i'n meddwl bod y ddwy opera sebon yn wahanol iawn. Mae hanes hir gyda Phobol y Cwm - bron pum deg mlynedd. Rownd a Rownd wedi'i gynllunio i apelio at gynulleidfa iau (roedd hi wedi ei greu gyda chynghor gan Phil Edmonds, creawdwr Hollyoaks). Mae Rownd a Rownd yn ddechrau gyda chân Cymraeg ac, yn aml, negeseuon tecst ar ffonau symudol eu cymeriadau. Dw i wedi sylwi bod rhai cymeriadau yn dod o'r Gogledd ym Mhobol y Cwm ac efallai ei fod yn digwydd hefyd gyda Rownd a Rownd - un ohonyn nhw beth bynnag yn dod o De Gymru. Mae'r weithred ym Mhobol y Cwm yn cymryd lle ym mhentre' ffuglen ac amaethyddol, Cwmderi (er bod hi'n cael ei ffilmio yng Nghaerdydd). Enw'r dafarn yw Y Deri. Mae Rownd a Rownd wedi ei leoli yn ardal Porth Aethwy mewn tre ffuglen o enw Glanrafon.



(Mae set Rownd a Rownd i'w weld ar ochr y ffordd yn Cilbedlam neu Dale Street ym Mhorth Aethwy. Mae'n werth ei weld. – Rob)

Mae mwy o benodau dal-i-fyny ar gael i wyllo ar Rownd a Rownd ("dod i ben mewn 145 diwrnod"). Mae dim ond 30 o ddyddiau ar gael i wyllo Pobol Y Cwm. Pam, tybed? Rhywbeth i wneud gyda'r flwyddyn addysg?

Ydy'r operâu sebon Cymraeg yn wahanol i'w fersiynau Saesneg? Mae llinellau'r straeon yn syml - mae pobl yn cwrdd â'i gilydd mewn siop, gaffi, dafarn neu gartre. Maen nhw'n delio gyda chomedi, problemau arferol neu ddifrifol a chyfnodau dramatig iawn, fel damweiniau drwg.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ond i fi, does dim diddordeb gyda fi yn operâu sebon Saesneg o gwbl. Dw i'n hoffi'r fersiynau Cymraeg achos dw i wedi dysgu llawer o bethau - mwy am ddiwylliant Cymraeg, sut mae pobl yn siarad heddiw ac, wrth gwrs, dw i wedi ychwanegu at fy ngeirfa! Gobeithio bydda i'n parhau i wylion nhw o leiaf tan dw i'n gallu siarad yn rhugl - os dw i'n gallu!

Ydych chi'n hapus i gyfaddef dych chi'n gwylion opera sebon? Rhaid i fi gyfaddef roeddwn i'n arfer gwylion Casualty blynyddoedd yn ôl. Nawr dw i'n hapus i ddweud, ydw, dw i'n gwylion Pobol y Cwm a Rownd a Rownd a dw i'n dysgu tipyn o bethau!

Yn olaf, penderfynais weld os oes tudalen Facebook gan Bobol y Cwm - mae 'na, ac yna wnes i sylwi am y tro cyntaf dw i wedi bod yn sillafu Pobol yn anghywir, mae'n cael ei sillafu fel 'Pobl'. Sut wnes i ddim sylwi?

Tudalen swyddogol Pobol y Cwm | Pobol y Cwm's official page [#pobolycwm50](#)

Pwy sy'n barod i ddathlu?! Efallai y bydd 'na ambell sypreis.

Yn amlwg mae gwylion S4C wedi gweithio'n dda i godi hyder Liz a dw i'n falch o glywed bod hi wedi bod yn ddigon penderfynol i ddod yn gyfarwydd â thafodiaith y gogledd. Mae gwylion Rownd a Rownd a Phobl y Cwm wedi ehangu ei geirfa hi mawn ffordd hollol naturiol a diddorol.

Os dach chi wir eisiau siarad efo hyder mae'n bwysig bod chi'n gwylion S4C, gwranddo ar Radio Cymru, darllen llyfrau a neidio mewn i sgysiau heb ofn. Ac, wrth gwrs, cyfrannu erthyglau i'r Wennol hefyd! - Rob

CLWB Teithiau Cerdded
Menter BGM Walking Club

Cwrdd am | Meet at 10.00 yb | am -
Canolfan Hamdden Pontypwl/Leisure Centre
Dydd Llun 02 /09/24 Monday

Twr Y Ffoledd, Folly Tower
Wâc heriol i ddechrau - 2 awr / 4 milltir
Draw i'r eglwys Trefddyn/Across to the Church
in Trevechin

2 hour walk / 4 mile circular route (bit of a challenge up to the Tower)

Taith heb gwn
No Dogs

Am fwy o wybodaeth ac i bwlio lle | For more information and to book a place Post@menterbgtm.cymru

Achubiaeth Wyrthiol

gan Megan Rogers.



Dyma stori am frawd fy nain, William George. Cafodd ei eni yn 1907. Roedd y teulu'n byw ym Mlaenafon yn ne Cymru.

Un diwrnod pan oedd yn bump oed roedd yn chwarae ger nant yn Stryd y Brenin, (King Street) roedd y nant yn agos iawn i'r brif garthffos. Roedd y dŵr yn llifo'n gyflym a wnaeth o gwmpo i'r dŵr ac i mewn i'r cwlfwr. Roedd y cwlfwr yn rhedeg am chwarter milltir o dan Broad Street.

Rhedodd y plant a llawer o bobl eraill i'r lle'r oedd y cwlfwr yn dod allan a chyrraedd mewn pryd i heddwas dynnu fo allan cyn iddo fynd i mewn i'r afon Lwyd. Roedd o'n lwcus dros ben. Roedd Bill yn anymwybodol ond dywedodd y meddyg nad oedd wedi torri asgwrn ond wedi cael dipyn o gnoc ar ei ben. Roedd y meddyg yn obeithiol y byddai o'n iawn.

Ym 1992 nes i gwrdd ag ewythr Bill ym Mlaenafon pan o'n i yna ar wyliau gyda fy nheulu. Roedd ewythr Bill, fy nhad, mam, gŵr a'n tri phlentyn yn cael cinio gyda'n gilydd. Roedd ewythr Bill yn wyth deg pump oed! Roedd e wedi cael achubiaeth wyrthiol dros ben!

Dai yn yr Eisteddfod

gan Bryan Roberts



Petasai chi wedi bod yn ein tafarn leol un noswaith gynnes yng nghanol mis Gorffennaf, byddech chi wedi gweld Dai a fi, yn eistedd yn yr ardd efo peintiau llawn o'n blaenau ni, yn mwynhau haul cynnes y noswaith.

Yn sydyn dywedodd Dai "Beth am fynd i'r Eisteddfod mis nesaf? Nid ydw i wedi bod i un ers oesoedd."

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

“Dim eleni Dai”, atebais, “Nid ydw i’n mynd bob blwyddyn, a byddai’n well gen i aros tan flwyddyn nesaf, pan fydd o yn Wrecsam. Mae hynny’n llawer mwy agos”

Wel, ‘dw i am fynd beth bynnag”

“Gobeithio nad wyt ti’n ystyried mynd yn dy hen gar di Dai, byddai’n ormod o risg”

“Paid poeni, mêt, mi glywais fod ‘na fws yn mynd. Byddaf yn ceisio cael sêr arno fo”

A dyna beth ddigwyddodd. Cafodd Dai sêr ar y bws ac aeth o i’r Eisteddfod.

Symudwch ymlaen efo fi i’r tafarn yng nghanol mis Awst, yr wythnos ar ôl yr Eisteddfod a’r tro nesaf welais i Dai.

“Sut aeth dy ymweliad a’r Eisteddfod felly, Dai?” gofynnais.

“Paid â gofyn” atebodd.


“O Dai, beth ddigwyddodd y tro yma?”

Dyma’r stori o ddiwrnod Dai yn yr Eisteddfod yn ei eiriau ei hun.

“Roedd popeth yn hyfryd trwy’r bore. Roedd yn braf iawn gwranddo ar bawb yn siarad Cymraeg o gwmpas i, ac yn clywed cymaint o acennau gwahanol. Mi ges i goffi hyfryd a sleisen o fara brith, yn syth ar ôl cyrraedd, ac wedyn, wnes i fwynhau mynd rownd y stondinau. Mi brynais grys T yr Eisteddfod, ac ychydig o lyfrau a chryno disgiau, cyn cael byrgyr a sglodion i ginio. Sut bynnag, yr oeddwn, yn siomedig iawn pan wnes i roi’r archeb yn y Gymraeg, ac atebodd y llanc “I don’t speak Welsh pal”

Erbyn hynny, oherwydd roedd y tywydd yn gynnes, o’n i’n

sychedig iawn, ac felly, benderfynais gael peint. Yn y babell cwrw, nes i gyfarfod criw o hogiau o’r Cymoedd ac mi gawson ni lawer o hwyl, yn drafod rygbi, c o r a umeibion ag ati, dros “ u n neu ddau” beint, ac aeth yr amser heibio yn gyflym iawn.



Efallai awr, neu dau, yn ddiweddarach, penderfynais ei fod yn bryd imi fynd i’r Pafiliwn

er mwyn mwynhau beth bynnag oedd yn digwydd yno. Wnes i gofio bod rhaid i mi fod yn ôl at y bws yn barod i adael am hanner awr wedi pump. Felly ffarweliais a’r hogiau, a ddechreuais gerdded, yn eithaf ansefydlog, dros y maes tuag at y Pafiliwn “Dw i wedi gornneud y cwrw” meddyliais “rhaid i mi eistedd i lawr.”

Teimlais nad oeddwn i eisiau bod ymysg llawer o bobl felly mi gerddais, yn simsan, tuag at gornel dawel o’r maes lle yr oeddwn i’n gallu eistedd i lawr i gael pum munud tan i mi ddechrau teimlo’n ddigon gwell i fynd i’r Pafiliwn.

Roedd yr haul yn gynnes ac roedd arogl y gwair mor felys. Mi wnes i gau fy llygaid, a ddechreuais feddwl am fy ieuenctid yng Ngogledd Cymru.



Y peth nesaf wnes i gofio oedd clywed llais yn y pellter yn dweud “Wake up pal” Agorais un llygad yn araf. Aelod o’r tîm diogelwch oedd yno, yn gofyn a oedd gen i docyn i’r cyngerdd nos. Os na, roedd rhaid i mi adael y maes yn syth.

Atebais fod rhaid imi fod yn ôl wrth at y bws cyn bo hir, felly, mi godais ar fy nhraed a ddechreuais gerdded tuag at faes parcio’r bysiau. Sioc iawn! Pan gyrhaeddais yno, roedd y maes yn wag. Edrychais at fy oriawr. Hanner awr wedi chwech ac y dylwn i fod wedi bod yno am hanner awr wedi pump! Roedd yn amlwg fod y bws wedi gadael hebof i, felly, sut allwn i fynd adref rŵan?



Roedd dim ond un peth i’w wneud rŵan. Roedd rhaid i mi ddal y trêr i Abertawe. O’n i’n siŵr bysai trêr oddi yno i Amwythig mewn byr o amser. Fel mae’n digwydd, roedd rhaid i mi aros yn orsaf Abertawe am fwy nag awr a hanner cyn i’r trêr gyrraedd. Yn y diwedd, cyrhaeddais gartre tua un ar ddeg o’r gloch. Erbyn hynny roedd gen i angen am beint arall i ddod dros y sioc, ond mi gefais wisgi bach a noson gynnar yn ei le.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Dyna fo felly, dyna sut aeth fy niwrnod yn yr Eisteddfod. Welais i ddim byd diwylliannol o gwbl”

“Paid â phoeni Dai” dywedais, “Mae dy gyfrinach yn ddiogel efo fi”

Buen Camino 2

gan John Simpson



Alto de El Perdón

Pan oedden ni'n cynllunio'r daith roedd Jeanette wedi awgrymu ein bod ni'n trefnu i rai o'n bagiau gael eu cario rhwng llefydd roedden ni wedi archebu i aros ynddyn nhw. Ar y dechrau roeddwn i'n meddwl y dylem gario ein holl eiddo bydol gyda ni fel pererinion yr hen ddyddiau. Yn ffodus, gwelais synnwyr ac archebon ni swyddfa bost Sbaen – Correos i gyflawni'r swyddogaeth. Ar 25 ewro ar gyfer pum pecyn roedd yn ymddangos yn rhy rhad, felly roedd y ddau ohonom yn disgwyl i rywbeth fynd o'i le ac i ni gael ein gadael mewn twll ar ryw adeg. Wrth iddo weithio allan, roedd pob trosglwyddiad yn gweithio'n berffaith, hyd yn oed i bentrefi bach allan o'r ffordd lle'r oeddem yn aros. Felly ar y noson gyntaf fe wnaethon ni adael ein bag yn betrusog wrth dderbynfa'r gwesty a mynd ar ein ffordd, ar ôl ychydig o weddi am ddiogelwch ein hunain a'n dillad isaf sbâr.

Daeth ein diwrnod cyntaf o gerdded i ben mewn pentref o'r enw Obanos. Roedd y tywydd wedi bod yn ogoneddus, ychydig yn oer a gwyntog wrth i ni groesi'r Alto de la Perdon, lle mae silwét enwog o bererinion yn cerdded ynghyd â cheffylau ac asynnod, a lle mae llawer o bobl yn stopio am orffwys, brechdan, a llun.

Roeddem yn meddwl ein bod wedi dewis yr amser gorau o'r flwyddyn ar gyfer cerdded y ffordd. Fodd bynnag, wrth i ni siarad ag eraill,

nid ni oedd yr unig rai oedd wedi gweithio allan y gall Sbaen fod yn boeth iawn ym mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst; ac mae Ebrill a Mai, Medi a Hydref yn fisoedd poblogaidd iawn i henoed gyda llawer o amser a phensiynau i'w cadw i fynd. Mae misoedd poeth yr haf yn bennaf ar gyfer myfyrwyr a phobl ifanc eraill sydd â'r amser hwnnw i ffwrdd o'u hastudiaethau.

Wrth godi tuag at y grib gyda'r tyrbinau gwynt gwelon caeau ar y naill ochr llawn gwenith a phys, a rhai gwag ble roedd tractorau'n brysur yn troi'r pridd wrth baratoi ar gyfer plannu.

Fe wnaethon ni basio eglwys Legarda lle stampiodd dynes ein pasbortau a rhoi deilen y tu mewn i ddynodi rhywbeth yr hoffwn i fod wedi gofyn amdano.

Pasiwyd caffi bach, yr oedd llawer ohonynt ar y ffordd, ac yn pob un roeddem yn prynu brechdan tiwna yr un, ac afal yr oeddem yn ei rannu.

Roedd llawer o gyfleoedd i ddechrau sgysiau gyda phererinion eraill, a chyn bo hir dach chi'n gallu deall pwy oedd eisiau siarad neu beidio. Cerddais gydag Americanwr am gyfnod. Roedd yn gerddwr frwd ac wedi cwblhau Mur Hadrian. Cafodd ei ddychryn pan ddarllenodd yn ei bapur newydd yn ôl yn yr Unol Daleithiau fod y goeden eiconig yn Sycamore Gap wedi cael ei dorri lawr.

Cwrs Hwyliaith yn Llanbed

gan Elisabeth Jones



Mae gan bob erw yn y wlad manylion diddorol ar fapiau: tirwedd, enwau lleol, henebion, olion diwydiant, llwybrau cerddwyr a cheffyl. Cynhaliwyd penwythnos mapiau wedi ei threfnu gan Nia, merch fywiog a chyfeillgar ym mis Awst yng Ngarth Newydd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Wnaeth saith o westeion cyfarfod yn Llanbed, a rhannu profiadau gwahanol, fel cofion plentyndod, teithiau seiclo neu gerdded ac, wrth gwrs, astudio'r iaith. Roedd llawer o hwyl i gael yn siarad efo dysgwyr eraill, yn enwedig dros amser brecwast a swper yn y gegin. Roeddwn i'n lwcus achos wnaeth y dynion dewis coginio popeth!

Aethon ni am dro efo'n gilydd. Yn ffodus roedd hi'n bosib ymweld â'r capel yn y brifysgol, capel efo organ ardderchog a seddau lliwgar. Roedd yn bleser arbennig i mi, achos yn y nawdegau roedd fy mab yng nghyfraith yn fyfyrwr yno, yn astudio diwinyddiaeth.

Uchelbwynt y penwythnos oedd sesiynau efo'r awdur, Mike Parker. Ar ôl edrych ar hen fapiau Cymru, wnaethon ni trafod sut roedden nhw'n dylanwadu ar farn y bobl. Oedd Cymru yn wlad gwyllt, peryglus neu fygythiol? Yn debyg roedd hi'n dibynnu ar agwedd creawdwr y map.

Hefyd, ddaru mi fwynhau amser rhydd i grwydro o gwmpas y dre, a thrwy'r tir llawn blodau gwyllt ger y brifysgol; caeau hyfryd lle dych chi'n gallu ymlacio.

Diolch i Hwyliaith, wnes i dreulio amser andros o dda yn Llanbed.

Garth Newydd

gan Rob Evans



Ac i ychwanegu at erthygl Elisabeth dw i'n falch o ddweud fy mod i wedi cael y pleser o fod yng Ngharth Newydd ar yr un penwythnos hefyd. Roeddwn i wedi cael gwahoddiad i siarad efo'r grŵp am ddyn o'r enw Edward Llwyd. Ydach chi wedi clywed amdano? Efallai eich bod chi wedi clywed am Gymdeithas Edward Llwyd sydd yn trefnu teithiau cerdded dros Gymru pob wythnos. Iawn, ond pwy oedd Edward Llwyd?

Roedd yn ddyn oedd yn bwysig iawn yn ei ddydd, roedd yn ddyn oedd yn gwneud pethau. Mae llawer o bobl efo syniadau, pobl sydd yn siarad amdany'n nhw efo brwdfrydedd ond dydy'r syniadau byth yn gweld golau dydd. Dw i'n siŵr bod chi wedi dod ar eu traws nhw. Doedd Edward Llwyd ddim y fath yna o ddyn.

Ond i ddechrau yn y dechrau.

Cafodd ei eni a'i fagu yng Nghroesoswallt ac aeth i'r ysgol ramadeg pan oedd yn naw oed a phan oedd yn 22 oed aeth i Goleg yr Iesu yn Rhydychen. I brofi nad oedd y fath o ddyn oedd yn siarad yn ddiddiwedd am bethau wnaeth o sefydlu Amgueddfa'r Ashmolean pan oedd yn 23. Dw i erioed wedi bod yna fy hun ond mae pobl yn dweud ei fod yn enfawr ac yn ddiddorol dros ben. Dim ond o achos hynny dyle pawb ym Mhrydain adnabod ei enw, ond nid fel 'na mae hi. Dydy bywyd ddim yn deg nac ydy?

Aeth ymlaen i gyhoeddi catalog o ffosiliau, y cyntaf o'r fath, yn 1698. Roedd yn fotanegwr brwdfrydig a chasglodd lawer o blanhigion o'r Wyddfa, Cader Idris ac Aran Benllyn a rhoddodd enwau Cymraeg iddyn nhw. Felly roedd o'n bwysig i'r iaith Gymraeg yn ogystal i fyd natur.

Ym mis Mai 1697 aeth o a thri arall o Rydychen ar daith fawr trwy Gymru, Iwerddon, yr Alban, Llydaw a Chernyw (roedd yr iaith Cernyweg dal yn fyw ar y pryd). Braff ynte? Ond na, doedd pethau ddim yn fêl i gyd. Yng Nghymru roedd pobl yn amau mai sbiwr oedd o yn casglu gwybodaeth er mwyn i'r llywodraeth godi trethi. Cafodd ei arestio yng Nghernyw achos bod pobl yn credu mai lleidr oedd o. Yn Llydaw hefyd roedd pobl yn credu mai sbiwr oedd o ac roedd o yn y carchar am fis. Er hyn i gyd roedd o wedi casglu llawer o wybodaeth, digon i gyhoeddi ei gyfrol gyntaf 'Archaeologica Britannica'.

Yn ystod yr holl waith roedd o wedi gwneud llawer o nodiadau a gwaith papur - pob un yn bwysig. Ond er pwysigrwydd y dogfennau yma nad oedd y Brifysgol yn fodlon eu prynu er mwyn iddo dalu ei dyledion. Yn y diwedd aeth y dogfennau i ddwylo preifat. Roedd un rhan wedi mynd i Lundain er mwyn cael ei rhwymo ond aeth siop y rhwymwr ar dân a chafodd y cwbl lot ei ddinistrio. Aeth y rhan arall i deulu'r Johnes o'r Hafod yn sir Aberteifi ond yn 1807 aeth y tŷ

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ar dân a chafodd ei llosgi i gyd. Doedd dim byd o'i waith ar gael wedyn.

Mae llawer mwy i'r stori wrth gwrs ond mae ei enw yn fyw o hyd yng Nghymdeithas Edward Llwyd sydd, nid yn unig yn gymdeithas â diddordeb mewn byd natur ond hefyd mae'n Gymdeithas Gymraeg ei iaith. Mae'r aelodau'n croesawu dysgwyr yn eu plith a byddai ymuno â nhw yn ffordd werthfawr iawn o ymarfer eich Cymraeg.

Gadwch llygaid allan ac ymunwch â nhw os mae taith yn eich ardal.

Nes i fwynhau siarad efo pawb ac yn rhyfeddu ar hyder pawb. Unwaith dach chi'n cyrraedd y pwynt le dach chi hyderus dach chi'n symud ymlaen yn gyflym. Gwrandwch ar Radio Cymru, gwyliwch S4C ac yn enwedig darllenwch lyfrau. Mae ateb i bob cwestiwn am ramadeg yn cael ei ateb wrth ddarllen llyfrau - treigladau, y lluosog, y ffordd i ffurfio brawddegau, sillafu a phob dim arall.

Ond ewch am wythnos neu benwythnos yng Ngharth Newydd er mwyn codi'ch hyder ac ewch ymlaen i gyfnod llawer haws yn eich taith trwy'r iaith.

50 Mlynedd yng Nghymru

gan Sara Jones



O ganlyniad i mi gwrdd â Tom a'i deulu a mynychu'r capel yn aml treuliais bron bob dydd Sul yn eu cwmni a chael fy nghinio gyda nhw. Roedd y ddau ohonynt yn eu saithdegau ar y pryd.

Cerddais i'r gwaith bob bore o Hengoed a cherddais yn ôl am bump. Mi gefais gwmni yn y bore ond yn aml gyda'r nos roedd yn rhaid i mi

gerdded ar fy mhen fy hun gan fod pobl eraill yn gorffen ar adegau gwahanol.

Un noson pan o'n i'n cerdded yn ôl ar fy mhen fy hun, stopiodd dieithryn mewn fan wen a chynnig lifft i mi. Mi dderbyniais y lifft heb unrhyw bryder, oherwydd pryd hynny yn Sri Lanka, roedd pobl yn derbyn lifftiau ac ychydig iawn o gerbydau oedd ar y ffordd. Mi aeth o â fi adref, ac mi stopiodd eto'r noson ganlynol a mynd â fi adref, ond yna gofynnodd i mi a fyddwn i'n mynd i'r sinema gyda fo. Mi wnes i wrthod a diolchais iddo am y lifft.

Pan ddywedais wrth Tom am fy lifftiau gan ddieithryn roedd yn poeni ac yn fy rhybuddio i beidio â derbyn lifftiau gan ddieithriaid.

Yna cynigiodd Tom ddod i fy nghodi bob nos ar ôl gwaith. Trwy gydol haf 1975 treuliais y rhan fwyaf o ddyddiau Sul gyda Tom a'i wraig. Capel yn y bore, cinio, ymweld â lleoedd agos fel Llyn Efyrynwy, Ellesmere, a Llangollen. Ar ôl cael te byddai Tom yn mynd â fi yn ôl adref yn hwyr yn y prynhawn.

Mwynheais y Nadolig a'r Blwyddyn Newydd gyda Tom a'i deulu. Diwedd Ionawr 1976 un bore Llun tra roeddwn yn y gwaith cefais neges bu farw Tom yn ei gwsg. Roeddwn wedi treulio diwrnod hyfryd y dydd Sul cynt yn mwynhau'r holl bethau neis a wnaethom fel teulu.

Roeddwn yn amlwg wedi torri fy nghalon i golli fy ffrind annwyl. Mi wnes i barhau i ymweld â gwraig Tom a threulio cymaint o amser ag y gallwn gyda hi. Ond diwedd mis Awst bu farw hi, dim ond saith mis ar ôl Tom. Yn ffodus daeth eu merch Ann a'i theulu yn nheulu newydd i mi. Yn Hydref 1976 penderfynais ddysgu gyrru i ddod yn annibynnol. Roeddwn i wedi llwyddo i arbed dipyn o arian felly prynais hen gar Austin 1100 o garej yn y Trallwng.

Dechreuais wersi gyrru gyda hyfforddwr yng Nghroesoswallt. Yn y cyfamser roedd sawl pobl yn y fflatiau'n mynd â fi am wersi yn fy ngar. Gyrrais gyda'r bechgyn yn fy nghyfarwyddo ar brynawn Sul. Hefyd gyrrais i'r ysbyty ac yn ôl gydag unrhyw un oedd yn byw yn Neuadd Trewern ac yn gweithio'r un shift yn yr ysbyty.

Gan fy mod i'n cael gymaint o ymarfer pasiais y prawf gyrru y tro cyntaf. Felly, penderfynais chwilio am rywle gwell i fyw. Gyda chymorth pobl

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

o'r capel ddes i o hyd i ystafell mewn bungalow yn Gobowen lle'r oedd Mrs Jones yn byw. Yn ystod Gwanwyn 1978 symudais i Gobowen.

Y tro nesaf... cyfarfod fy ngŵr Frank, priodi, a chael plant....

Rhai Arferion Priodasau Cymru

gan Martin Jones

Sut oedd pobl ifanc yn creu cartref yn yr hen ddyddiau heb arian sbâr ar gyfer dodrefn a phopeth arall?

Roedd ymgartrefu pan briododd cwpl ifanc yn achlysur pan oedd angen cymorth ariannol ar deulu. Mewn nifer o leoedd yn ne Cymru roedd ffordd ddiddorol o godi arian i helpu'r pâr newydd briodi: sef y "bidding" a gafodd ei gynnal ar ôl y seremoni priodas. Byddai'r cwpl ifanc yn cael gwahoddwr (neu "bidder") (fel arfer cymeriad lleol adnabyddus) i ymweld â chartrefi ffrindiau a chymdogion i'w gwahodd i'r briodas a'r neithior a ganlyn. Byddai'r gwahoddwr yn gwisgo dillad nodweddiadol, er enghraifft ffedog wen wedi'i haddurno â rhubanau, ac yn cario ffon addurnedig. Cyn traddodi ei anerchiad (neu "rammas"), weithiau byddai fe'n canu ac yn dawnsio i sicrhau y byddai pawb yn dod i'r gegin i glywed y gwahoddiad ffurfiol. Ac ar ôl i'r gwahoddwr roi'r gwahoddiad, byddai'r bobl yn y tŷ'n rhoi bwyd a diodydd iddo fe, ac yn aml byddai fe'n dychwelyd adre wedi meddwi.

Byddai'r gwesteion yn y briodas yn dod ag anrhegion neu symiau o arian. Ond mae'n bwysig deall byddai'r pâr newydd briodi'n ystyried taw rhywbeth i'w ad-dalu ar achlysur tebyg yn y dyfodol oedd y rhain - ar wahân i'r rhai oedd yn ad-daliad o anrhegion wedi'u rhoi ynghynt gan y cwpl neu gan eu teulu. Yn ei anerchiad, byddai'r gwahoddwr yn atgoffa'r gwesteion o'r angen iddyn nhw wneud yr ad-daliadau hyn.

Rhan hanfodol o'r "bidding" oedd cadw llyfr cyfrif ac ynddo fe cofnodi'r holl anrhegion. Wrth gwrs, byddai'r swm o arian wedi'i gasglu'n amrywio o briodas i briodas, ond gallai fod cymaint â deg ar hugain neu bedwar ar hugain o bunnau - swm sylweddol yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er roedd yn rhaid ad-dalu rhai o'r arian yn y dyfodol, galluogodd y

"bidding" y cwpl i briodi ac ymgartrefu - mewn ffordd fel morgais heddiw. Gallai'r anrhegion gael eu hadennill gan fynd i'r gyfraith, ond roedd teimlad cymunedol yn sicrhau na fyddai angen y fath weithrediad.

Ar ôl y seremoni priodas byddai bwyd a diodydd yn cael eu gwasanaethu. Byddai'r cwrw'n rhad ac am ddim ond codid tal gormodol am y bwyd. Ffordd arall o helpu'r pâr newydd briodi oedd hyn, gan taw nhw fyddai'n derbyn yr elw.

Yn Ne Orllewin Cymru, byddai pobl yn mynd i'r briodas naill ai ar gefn ceffyl (priodas geffylau) neu, ymhlith pobl dlotach, ar gerdded (priodas draed). Roedd priodasau ceffylau'n boblogaidd iawn a byddai pobl yn gwneud eu gorau glas i gael benthyg ceffylau gan ffermwyr cymdogol. Nodwedd liwgar ar y fath briodas oedd y rasio ar gefn ceffyl rhwng dynion y priodfab oedd yn ceisio mynd â'r briodferch i'r eglwys ar y naill law a ffrindiau'r briodferch oedd yn ceisio eu rhwystro nhw.

Gallai ymddygiad y "raswyr" fod yn ddiotal dros ben ac nid yn anaml oedd hi i bobl gael eu hanafu - neu hyd yn oed eu lladd. O ganlyniad, doedd ffermwyr ddim wastad yn fodlon i roi benthyg eu ceffylau.

Yn enwedig yn Sir Aberteifi, defod priodas arall oedd "pwnc" - sef gornest am y craffaf rhwng dynion y priodfab a theulu'r briodferch. Ar fore'r briodas byddai dynion y priodfab yn marchogaeth i gartref y briodferch i geisio mynd â hi i'r eglwys. Codid rhwystrau ar y ffordd, ac yna pan fydden nhw'n cyrraedd drws y tŷ, cynhelid y "pwnc" nes iddyn nhw gael dod i mewn. Nawr, byddai'n rhaid iddyn nhw chwilio am y briodferch a oedd yn cuddio neu mewn cuddwisg. Ar ôl iddyn nhw ddod o hyd iddi hi, byddai dynion y priodfab yn mynd â hi ar gefn ceffyl i gyfeiriad yr eglwys ac amddiffynwyr y briodferch ar eu trywydd.

Yng Ngogledd Cymru, roedd pethau'n hollol wahanol. Doedd dim "bidding" a doedd dim byd fel y gyfundrefn gymhleth o fenthycion ac anrhegion. Yn eu lle, codid taliad o un swllt am bryd o fwyd oedd fel arfer yn cymwys bara gwenith a llaeth (efallai dylwn i ddweud "llefrith"!) melys. Hefyd, yn aml roedd ras i dŷ lle'r oedd y pryd o fwyd i gael ei gynnal. Byddai'r

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ras yn dechrau cyn gynted ag y byddai'r briodferch yn gwisgo ei modrwy briodas. A'r wobwr? Dim byd llai na'r gacen briodas!

Byd Natur Medi 2024

gan Patrick Soper



Mantell goch yw un o'n gloynnod byw'r mwyaf adnabyddus yn ogystal â'r mwyaf lliwgar. Fel grŵp ni allan nhw oresi yn yr ynysoedd hyn drwy gydol y flwyddyn, heblaw am nifer bach sy'n gallu gaeafgysgu mewn ardaloedd cysgodol yn ne Lloegr; mae rhan fwyaf o'r rhai ein bod yn eu gweld wedi cyrraedd o gefndir Ewrop yn ystod misoedd Mai a Mehefin.

Yn ystod yr haf bob blwyddyn dosbarthir y creaduriaid egsotig hyn yn eang yn ein dolau a'n gerddi mor bell i'r gogledd ag Ynysoedd Shetland. Mae eu ffynonellau o neithdar yn cynnwys blodau'r ddraenen wen, y ddraenen ddu, mieri ac ysgall. Tra mae mentyll cochion yn hoff iawn o'r goeden fêl, bydd y rhai benywaidd yn dodwy eu hwyau ar ddail y danadl poethion fel arfer. Pan fydd yr wyau yn deor mae'r lindys yn bwydo ar y dail ac yn eu defnyddio i ffurfio 'pabell' fel lloches.


Mae poblogaeth y fantell goch yn cynyddu wrth i'n gaeafau dod yn fwynach oherwydd newid hinsawdd.



Un o'm hoff flodau yw'r gwyddid, gyda'i bersawr hudol. Mae blodau yn dechrau ymddangos ym mis Mehefin ac yn parhau tan fis Medi; yn ystod y misoedd hyn maen nhw'n darparu neithdar i sawl math o bryfed megis cacwn, a glöyn byw fel y Fantell Wen, sy'n dirywio. Byrhoedlog yw'r blodau, ond cân nhw eu disodli gan yr aeron fflamgoch a gludiog bod llawer o adar yn eu mwynhau. Dywedir y mae'r hadau yn treulio drwy gyfundrefn treulio'r adar,

a gallan nhw egino pan gân nhw eu hysgarthu. Yn ôl bob sôn, gall pathewod defnyddio rhisgl y gwyddid wrth iddyn nhw adeiladu eu nythod, ac maent yn bwyta'r blodau fel tarddle egni.

Mae elinog yn blanhigyn dringo sy'n tyfu hyd at 4' o uchder ym mherthi ac ar dir garw. Mae hi'n gyffredin ledled Cymru, a gellir dod o hyd iddi cyn belled â de'r Alban. Rhwng mis Mai a mis Medi mae blodau bach atyniadol yn ymddangos, gyda phum petal porffor a chanol melyn sy'n allwthio. Erbyn diwedd yr haf caiff y blodau eu disodli gan aeron coch sgleiniog hirgrwn sy'n hongian mewn clystyrau. Ond gan fod elinog yn aelod y teulu Solanum, gwenwynllyd yw bob rhan ohoni.



Seicio trwy'r gwledydd Celtaid

gan Michel Conq

Taith seiclo Mikeal ac Yvonne



Midleton - Cork - 52 km

Dydd Mawrth 27ain Mehefin

Dyma ni ar ein cam olaf ar y beiciau yn mynd ar hyd y ffordd Genedlaethol tuag at bennrhyn Cobh! Rydym wedi drysu efo enwau dau bentref ar y map ac yn mynd 10km yn rhy bell cyn dychwelyd i barc anifeiliaid Fota. Mae Cobh, a elwid gynt yn Queenstown, yn borthladd yn Swydd Gorc yn ne-orllewin Iwerddon. Roedd yn fan cychwyn i 2,500,000 o'r 6 miliwn o Wyddelod a ymfudodd i Ogledd America rhwng 1848 a 1950. Y prif reswm am hyn oedd y newyn mawr a wnaeth ddirnstrio'r cnwd tatws.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cobh (Côf) oedd ddinas olaf y Titanic yn 1912, mae'r porthladd yn gysylltiedig â thrasiedi'r llong Lusitania a gafodd ei suddo gan long danfor yr Almaenwyr ger Kinsale yn ystod y Rhyfel Byd 1af. Bu farw 1196 o bobl.

Heddiw rydym yn cyrraedd cei Cobh a gweld llong fordaith llawn 3600 o dwristiaid. Mae Cobh yn croesawu tua 100,000 o ymwelwyr y flwyddyn ar longau moethus! Wedi'i leoli'n gyfleus ar Afon Lee, Cobh / Cork yw'r 2il harbwr naturiol mwyaf yn y byd!

Mae'r tywydd yn cŵl, ond mae popeth yn iawn ar gyfer y picnic o flaen eglwys gadeiriol odidog St Colman sy'n edrych dros y porthladd, gyda golygfa eithriadol. Arddull Neo-Gothig, fe'i hadeiladwyd rhwng 1868 a 1915. Mae'r clochdy'n 91m o uchder!

Rhyfeddwn ni at y tai Gwyddelig hardd ysbennydd a lliwgar. Mae cyngerdd o gerddoriaeth Wyddelig yn cychwyn o flaen yr eglwys gadeiriol.

Rydym yn croesi'r afon ar fferi i ddarganfod dinas gyfagos Corc!. Rydym yn treulio ein noson olaf yn Iwerddon gydag Alex a Martin, a ymwelodd â Gwlad yr Iâ ar feic!

Cork - Ringaskiddy - 28 km **Dydd Mercher 28ain Mehefin**

Yn y glaw rydym yn croesi strydoedd Cork (Corcaigh) ac yn mynd i gyfeiriad Ringaskiddy (Rin ân Scidigh). Bryn serth o 2 km, yna llwybr glas, ac yna lôn feicio ranbarthol ar hyd yr Afon Lee.

Mae gan Ringaskiddy ganolfan ddiwydiannol ar gyfer cynhyrchu cyffuriau fel Viagra. Ond yn bwysicach, dyma'r porthladd ymadael i deithwyr i Roscoff.

Gorffwys a phicnic o flaen capel bach, myfyrio ar ein munudau olaf yn Iwerddon! Llwyddasom yn ein prosiect. Mae'r haul yn gwenu ac rydym yn aros yn dawel am yr amser i fynd ar y fferi "Armorique".

Yma daw Tsiecoslofac Gwyddelig a'i ferch 8 oed oedd yn gadael am Tsiecoslofacia ar feic, llongyfarchwn ni'r ferch fach sydd eisoes wedi beicio i Santiago de Compostela.

Dyma hefyd dau feiciwr o wlad Léon yn Llydaw, sydd wedi teithio trwy Kerry a Connemara mewn 15 diwrnod! Pob un ei ffordd, pob un ei lwybr, pob un ei daith!

Ar ddec y fferi dathlwn ein dychweliad i Lydaw trwy yfed cwrw da.

Mae'r Gwyddelod yn hapus i fynd ar wyliau i Lydaw!

Luniau olaf o ddinas hardd Cobh ac yn ddiweddarach rydym yn syrthio i gysgu ar y môr Celtaidd.

Slán, oíche mhaith!

Hwyl fawr, nos da!

Kenavo, noz vat!

Good bye, good night!

Au revoir, bonne nuit!

Môr Celtaidd - 16 awr **Roscoff - Plougin - 65km** **Dydd Iau 29ain Mehefin**

Y Môr Celtaidd, (Saesneg : Celtic Sea ; Llydaweg : Ar Mor Keltiek ; Cernyweg : An Mor Keltek ; Gwyddeleg : An Mhuir Cheilteach ; Cymraeg : Y Môr Celtaidd) yw enw'r rhan o Gefnfor Iwerydd sy'n ffinio â De Iwerddon, dau ben de-orllewin Prydain Fawr a phen gorllewinol Llydaw!

Wrth ddeffro gwelwn ni ynys Batz, yna porthladd Roscoff, sef douar Breizh, gwlad Llydaw!

Cawn ni frecwast eto o flaen capel y Santez Barba a dathlu'n dychwelyd adref dros y môr Llydewig.

Gwlad weddol wastad yw Leon, mwy gwastad na Chymru! Fodd bynnag mae gennym lawer o fryniau a dyffrynnoedd fel rhai Sibiril. Mae canlyniadau ein hantur yn gadarnhaol, rydym yn dychwelyd i rythm arferol o fywyd ac yn ystyried prosiectau newydd?

Have you got a story to tell?
Why not have a go!
No experience necessary!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Rhaglen Medi 2024

Y De a'r Canolbarth

Mae pob taith ond un yn dechrau am 10.30

Dim cŵn os gwelwch yn dda

Teithiau'n gorffen tua 3.00

7-9-24 **Ardal gweithfeydd plwm Tir y Goron - Ystumtuen, Cwm Rheidol a Phontarfynach** - Taith gymedrol tua chwe milltir (un darn serth o tua 100 llath) Bydd cyfle i fyrhau'r daith os bydd angen. **Man Cyfarfod** Ysbyty Cyfnyn ar yr A4120 (rhwng Ponterwyd a Phontarfynach) **SN753791 Arweinydd** Rees Thomas 07838 259313

14-9-24 **Allt yr Esgair** (mae'r daith yma yn rhan o Wyl Y Fenni, manylion llawn yma <https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gwyl-y-fenni-medi-2024/> - O ben Allt yr Esgair mae golygfeydd gwych tua Bannau Brycheiniog, Mynydd Du Brycheiniog, Dyffryn Wysg a Llyn Syfaddan. Byddwn yn cerdded ar ran o heol Rhufeinig oedd yn cysylltu caerâu Rhufeinig Aberhonddu a'r Fenni. Cylchdaith tua 6 milltir. **Man Cyfarfod** Culfan oddi ar yr A40 (ar y chwith o ardal Aberhonddu) rhwng Bwlch a Llansantffraid. Parcio am ddim **SO129226 Arweinydd** Jeff Davies 01873 856863

21-9-24 **Ardal Llanmadog** - Cylchdaith tua 6 milltir yn dilyn Llwybr Yr Arfordir (gall fod yn fwdlyd.) Wedyn drwy Gwm Cheriton a dringo (ambell fan serth) i fyny i'r Bulwark, hen fryngaer. Llwybrau mynyddig a golygfeydd arbennig. **Man Cyfarfod** Maes Parcio Cwm Ivy ym mhen pellaf pentref Llanmadog. Tâl £2 **SA3 1DJ SS440934 Arweinydd** Eirian Davies 01792 844821

28-9-24 **Y Rhws – Y Barri Nodwch amser dechrau'r daith** - Taith linellol tua 5 milltir a fydd yn dilyn Llwybr Yr Arfordir. Llwybrau cadarn ar y cyfan ond un man serth gyda nifer o stepiau. **Man Cyfarfod** Maes Parcio gorsaf rheilffordd Y Barri **ddal trên 10.04** i'r Rhws, cerdded yn ôl. **CF62 7AE ST107672 Arweinydd** Huw a Heulwen Jones 02920 843835

4-6/10/24 **Cynhadledd Flynyddol 2024 Gwesty'r Faenol Fawr, Bodelwyddan** Manylion llawn yma <https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/cynhadledd-flynyddol-cymdeithas-edward-llwyd-2022/>

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Geirfa

Parti Hâf

O ystyried - considering
Cefnogaeth - support, backing
Ymwelwyr - visitors
Ychwanegu - to add
Gyda balchder - with pride

Teithiau cerdded

Adwy - a gap
Gwrych - bushes
Rhedyn - bracken
Gwasanaethu - to serve
Gwirfoddoli - to volunteer
Cipio - to grab, to take
Adas i'r pwrpas - fit for the purpose
Ceudod - the hold (of a ship)
Cadwyn - chain
Llongdrylliad - shipwreck
Carcharor - prisoner
Atgoffa - to remind
Anhegwch bywyd - the unfairness of life
Siambur claddu - burial chamber
Anelu - to aim
Maes awyr - airfield
Rhyngwladol - international
Ar gyrion - on the edges
Osgoi - to avoid
Crwydro - to wander
Crafu pennau - scratching heads
Peiriant - machine
Cyfrinachol - secret

Margo Aderyn

Heriol - challenging
Ffyn gerdded - walking poles

Nigel Mann

Ergyd - explosion
Fflachiad - flash
Byddin wrth gefn - army reserves
Goleuadau Gogleddol - Northern Lights
Arth (eirth) - bear(s)

Opera Sebon

Yn raddol - gradually
Perthynas - relationship
Prif cymeriadau - main characters
Ymadroddion - phrases
Llai ffurfiol - less formal

Egwyl - a break, holiday
Cynulleidfa iau - younger audience
Cyngor - advice, assistance
Creawdwr - creator
Dal-i-fyny - catch up
Damwain - accident
Diwylliant - culture
Ychwanegu - to add
Cyfarwydd - familiar
Tafodiaith - dialect

Achubiaeth wyrthiol

Prif garthffos - main sewer
Cwlfer - culvert
Heddwes - policeman
Anynwybodol - unconscious
Gobeithiol - hopeful

Dai yn yr Eisteddfod

Ystyried - to consider
Cryno ddisg - compact disc
Ansefydlog - unsteady
Gorwneud - to overdo
Diwylliannol - cultural

Profiad arbennig

Deallusol - intellectual
Ymdopi - to cope

Edrych

Disgleirio - to shine

Buen Camino

Archebu - to order
Pererin - pilgrim
Cyflawni - to undertake
Trosglwyddo - to transfer
Petruso - to worry
Derbynfa - reception
Gogoneddus - glorious
Astudiaethau - studies
Crib - crest
Gwenith - wheat

Cwrs Hwyliaith

Erw - acre
Henebion - ancient monuments, relics
Olion diwydiant - industrial traces
Diwynyddiaeth - theology
Dylanwadu - to influence
Agwedd - manner, attitude of mind

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Creawdwr - creator

Garth Newydd

Ychwanegu - to add

Croesoswallt - Oswestry

Ysgol ramadeg - grammar school

Sefydlu - to establish

Amau - to suspect

Dogfennau - documents

Dyledion - debts

Rhwymo - to bind

50 Mlynedd

O ganlyniad - as a result (of)

Dieithryn - stranger

Heb unrhyw bryder - without fear

Annibynol - independent

Arbed - to save

Hyfforddwr - instructor

Cyfarwyddo - to advise

Arferion Priodasau

Ymgartrefu - to make a home

Achlysur - occasion

Gwahoddwr - the one who invites

Adnabyddus - well known

Neithior - wedding feast

Nodweddiadol - typical

Ffedog - apron

Addurno - decorated

Traddodi - to deliver

Anerchiad - speech

Ad-daiad - repayment

Gweithrediad - action

gormodol - excessive

Cymdogol - neighbourly

Priodfab - groom

Priodferch - bride

gornest am y craffaf - battle of wits

Cuddwisg - disguise

Ar eu trywydd - on their tail

Byd Natur

Mantell goch

Red Admiral

Adnabyddus - well known

Goroesi - to survive

Trwy gydol - through the whole

Gaeafgyngu - to hibernate

Dosbarthu - to spread

Ffynonell - source

Neithdar - nectar

Draenen wen - whitethorn

Draenen ddu - blackthorn

Mieri - bramble

Ysgall - thistle

Coeden fêl - buddleia

Danadl poethion - nettles

Deor - to hatch

Lindys - caterpillar

Gwyddid - honeysuckle

Cacwn - bumble bee

Glöyn byw - butterfly

Burhoedlog - short-lived

Aeron fflamgoch - bright red berries

Gludiog - sticky

Egino - germinate

Ysgarthu - to excrete

Pathew - doormouse

Tarddle egni - source of energy

Elinog - bittersweet

Atyniadol - attractive

Allwthio - to extrude

Disodli - to replace

Gwenwynllyd - poisonous

Seiclo trwy'r Gwledydd Celtaidd

Llong fordaith - cruise ship

Moethus - luxury

Wedi ei leoli - placed

Gwlad yr Iâ - Iceland

Rhanbarthol - provincial

Canolfan ddiwydianol - industrial centre

Cefnfor Iwerydd - Atlantic Ocean

Llefydd ble mae grwpiau Cymraeg ar gael

Aberaeron

Coffi a chlonc Gwesty'r Castell, bob bore Mawrth 10:30- 12.

Am fwy o wybodaeth plis cysylltwch gyda Arwel - ja.jones50@btinternet.com

Abergwaun, Sir Benfro.

Cyfarfod yn Janes Woolshop, High Street, Abergwaun **SA65 9AR** bob dydd Llun rhwng 10.30 a 12.30. Croeso cynnes i bawb!

Clonc Mannings.

Ar gyfer pob lefel a'r Cymry. Caffi Mannings, Abergwaun. Bob bore dydd Sadwrn. 10.00-11.30.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Coffi Mannings

Ar gyfer Lefel Uwch a'r Cymry. Cymraeg yw iaith y clonc. Caffi Mannings, Abergwaun. Bob prynhawn dydd Gwener. 1.30-3.30.

Abertawe

Dewch am Sgwrs. Pob prynhawn Gwener rhwng 2.00 a 4.00 yng nghaffi Urban Kitchen, 37 Orchard Street, Swansea. SA1 5AJ Croeso i bawb. Am fwy o wybodaeth: Robin Campbell: zig_zag64@hotmail.com

Cwm Ivy, Bro Gŵyr - Shw mae dydd Iau

Caffi Cwm Ivy Llanmadoc. SA3 1DJ Ewch heibio'r dafarn Britannia tuag at yr eglwys, trowch i'r dde a parcio yn y cae ar y dde. Golygfeydd ysblennydd a chroeso Cymraeg cynnes. Pob dydd Iau am 11yb. bobwennol@ntlworld.com

Newton, Bro Gŵyr: Yn Neuadd y plwyf, St Peter's Newton SA3 4RA bob dydd Mercher o 12.30 tan 2.30. Mae hyd yn oed y barista yn siarad Cymraeg. Dewch i siarad Cymraeg. vanessabassett@hotmail.com

Southgate, Bro Gŵyr Three Cliffs Cafe SA3 2DH - pob pnawn dydd Mawrth am 2.00 am ryw awr a hanner. Does dim ond rhaid i chi droi fyny neu cysylltwch â fi o flaen llaw bobwennol@ntlworld.com

Clwb Coffi yn Siop Goffi Theo's (yn yr eglwys Methodistiaid) o 10.00 tan 12.00 bob yn ail dydd Gwener. Cysylltwch â Carys Evans carys.j.evans@swansea.ac.uk

Birmingham

Cwrdd y cyntaf dydd Llun a'r trydydd dydd Mawrth bob mis. Cherry Reds (cafe bar), John Bright Street, Birmingham, B1 1Bj janine310@btinternet.com

Facebook - Birmingham Welsh Meet Up

Bryn Buga. Pob dydd Iau am 10yb tan 11.30 yn Llyfrgell Bryn Buga. Cysylltwch a: Mike Brown - 07801 348151 neu post@menterbgmtm.cymru am fwy o fanylion neu i ymuno'r Grwp Whatsapp

Caerdydd Clonc Bore Llun. Yr Awr Hapus yn cyfarfod yn yr Hollybush Coryton, 10.45-11.45. Yna nol ar Zoom unwaith eto... Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu, @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Caerdydd Clonc dydd Iau Castell Caerdydd, yn cyfarfod yn y Caffi rhwng 1 a 2 o'r gloch ar ddydd Iau. Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Caerloyw. Lock Keepers, Horseshoe Drive, Over, GL2 8DB. Dydd Iau 9fed Tachwedd, 2.00yp. Dewch i gael hwyl a chyfle gwych i siarad Cymraeg. Peidiwch â bod yn swil! ebost: fibenson@gmail.com

Ddwyrain Cernyw - y bore Gwener olaf yn y mis, am 10:30 yb am awr neu awr a hanner; fel arfer yn y caffi ym Mhortwrinkle - The Jolly Roger, neu yn Looe yn Island View Cafe (ar ôl y Pasg). Ond - cysylltwch â Lillian am fanylion yn gyntaf. lillian@environomics.co.uk

Dwyfor

Pwllheli cyfarfod ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis am 10.30 ym Mlas Heli LL53 5YT

Llanystumdwy cyfarfod ar y 4ed nos Fercher y mis am 19.30 yn Y Plu LL52 0SH

Nefyn cyfarfod yr 2il nos Lun y mis am 19.30 yn Yr Heliwr LL53 6HD

Porthmadog cyfarfod ar y 3ydd dydd Sadwrn y mis am 10.30 yn y Ganolfan Hamdden (Byw'n Iach Glaslyn), Stryd y Llan, Porthmadog, LL49 9HW.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Martin: m.croydon@bangor.ac.uk

www.facebook.com/HwbCymraegDwyfor

Llanelli Cyfarfod yn Nhafarn y Sessile Oak am 7.00 tan 8.30 bob nos Lun. Croeso i bawb. clwbcecsllanelli@gmail.com

Oxford/Rhydychen 'Space for Reading', Weston Library, Broad Street, Oxford, OX1 3BG. Pob dydd Gwener amser cinio, 12:00 tan 13:00 Cysylltwch â John Williams jwilliams718@btopenworld.com

Pontypŵl cyfarfod ger Canolfan Hamdden Pontypŵl pob dydd Mawrth am 10.00 ac yn cerdded draw i gaffi'r Basin ger y gamlas (tua milltir). Aros am goffi yn y ganolfan hamdden os nad yw'r tywydd yn ffafriol. **NP4 8AT**

Porth, Y Rhondda Yr Hen Lyfrgell, 47 Pontypridd Road . Cyfarfod yn y lolfa goffi bob dydd Iau am 10.-12 y.b. Dydd Gwener Gwersi Cymraeg anffurfiol 10.30-12. Mae llyfrau ail law Cymraeg ar werth a llawer o bethau eraill yn mynd ymlaen hefyd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Southerndown/Aberogwr.

Mae'r grŵp yn cyfarfod ddydd Iau rhwng 10.00yb - 12.00yp yn "Crafts by the Sea", Church Close, Aberogwr. Y cysylltiad yw Linda Williams 07783 415754.

St Albans, Hertfordshire. Cyfarfod ail ddydd Sadwrn yng nghaffi canolfan arddio Notcutts, Hatfield Road, St Albans, AL4 0HN o 10.30 i tua hanner dydd.

Ebost: amandaferon@outlook.com

Saltney Ferry cyfarfod am 11.00 yn Yr Hen Gaffi, Saltney Ferry CH4 0BJ pob dydd Mercher a phob dydd Sadwrn cysylltwch â Erica @mackie.co.uk

Thornbury, Glos

Held on the last Tuesday of each month from 14:30 – around 16:00 in Hawkes House, St Mary's shopping precinct, Thornbury BS35 2AB. I call the group 'Cornel y Siaradwyr' and there are usually between 8 and 12 of us present, a mix of 1st language speakers and learners. Contact: britpgj@gmail.com

Trefdraeth, Sir Benfro. Cwrdd bob bore dydd Mercher am 10.30 y.b. yng Nghaffi Blas at Fronlas yn Stryd y Farchnad.

SA42 0PH. Croeso cynnes i bawb.

Trefynwy Clwb Clonc. Pob dydd Llun yn Coffi #1 yn y dref am 1-2pm Croeso i bawb **NP25 3PS**

Treffynnon Dydd Gwener cyntaf bob mis am 2.00 yn y llyfrgell. Croeso cynnes i bawb. Cysylltwch: 07864 149078

Y Fenni Dydd Llun am 10.30-11.30 - Grŵp Bore Coffi - Y Trading Post, Neville Street, Y Fenni, NP7 5AA - Trefnydd: Chris Chetwynd - e-bost Chris.Chetwynd@coleggwent.ac.uk

Y Fenni Dydd Mercher am 13.00 - 14.00 - Clwb Coffi Y Fenni Newydd (Grŵp sgwrsio anffurfiol) - Y Trading Post fel uchod. Cysylltwch â post@menterbgtm.cymru Gall dysgwyr ofyn i ymuno â'r grŵp Whatsapp am unrhyw wybodaeth bellach

Yr Amwythig

Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury. **SY3 7NN** ar yr ail a'r pedwerydd dydd Iau pob mis, am 7.30 Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Bryan Roberts - bryro@btinternet.com neu ar 07985919358



BETH AMDANI!



WYTHNOS BYW'N GYMRAEG



Pump diwrnod llawn antur yng Ngorllewin Cymru. Y bwriad hefyd yw codi hyder yn y Gymraeg gyda llawer o weithgareddau diddorol.

Llety: Garth Newydd, Llanbed
Ceredigion SA48 7AA

Am fwy o wybodaeth ewch i www.paned.cymru



Trefnir gan Hwyliaith